**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/VG/3672/20

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

7 Tachwedd 2020

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020**

Dros nos gwnes i'r Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020 o dan adrannau 45B, 45C(1) a (3), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Yn unol ag adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu bod yr Offeryn Statudol hwn wedi dod i rym am 4.00am y bore yma cyn y gellid ei osod, oherwydd yr angen frys i ymateb i newidiadau a nodwyd yn y risg i iechyd y cyhoedd a achosir gan y rhai sy'n cyrraedd o Denmarc. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig ar Ddydd Llun 9 Tachwedd.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 4 Rhagfyr 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiad y pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn i'w trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Tachwedd 2020.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.